

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Mehefin,
2017
i'w hateb ar 14 Mehefin 2017**

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

Gofyn i [Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg](#)

1. **[Jeremy Miles \(Castell-nedd\)](#)**: Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i weithredu argymhellion Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru yn ymwneud ag 'Addysg ar gyfer Cydweithredu'? OAQ(5)0132(EDU)

2. **[Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)**: A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyfleoedd profiad gwaith i ddisgyblion? OAQ(5)0131(EDU)W

3. **[Lynne Neagle \(Torfaen\)](#)**: A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer ysgolion yng Nghymru dros y chwe mis nesaf? OAQ(5)0139(EDU)

4. **[Mohammad Asghar \(Dwyrain De Cymru\)](#)**: Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau'r pwysau ar lwyth gwaith athrawon yng Nghymru? OAQ(5)0134(EDU)

5. **[Dai Lloyd \(Gorllewin De Cymru\)](#)**: A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0133(EDU)

6. **[Janet Finch-Saunders \(Aberconwy\)](#)**: A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru yn y dyfodol? OAQ(5)0135(EDU)

7. **[Mark Isherwood \(Gogledd Cymru\)](#)**: A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am lefel y cyllid ysgolion yng Nghymru? OAQ(5)0137(EDU)

8. **[Jayne Bryant \(Gorllewin Casnewydd\)](#)**: Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i annog mwy o bobl ifanc i ddarllen? OAQ(5)0138(FM)

9. **[Lynne Neagle \(Torfaen\)](#)**: Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i sicrhau bod ysgolion yng Nghymru yn hyrwyddo gwydnwch emosiynol ymysg plant a phobl ifanc? OAQ(5)0140(EDU)

10. [Jenny Rathbone \(Canol Caerdydd\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am lefel y cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghaerdydd? OAQ(5)0141(EDU)

11. [Simon Thomas \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau hyfywedd addysg uwch? OAQ(5)0142(EDU)**W**

12. [Vikki Howells \(Cwm Cynon\)](#): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau y gall athrawon gefnogi addysg disgyblion yn effeithiol yn ystod y cyfnod pontio rhwng addysg gynradd ac uwchradd? OAQ(5)0136(EDU)

Gofyn i'r [Cwnsler Cyffredinol](#)

1. [Mike Hedges \(Dwyrain Abertawe\)](#): Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o'r goblygiadau cyfreithiol i Gymru o ran gorfodi rheolau Sefydliad Masnach y Byd, yn absenoldeb cytundeb masnach rhwng Llywodraeth y DU a'r UE? OAQ(5)0041(CG)

2. [Huw Irranca-Davies \(Ogwr\)](#): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael ynghylch y goblygiadau cyfreithiol i Gymru o ran y bwriad i sefydlu cronfa cyd-ffyniant gan Lywodraeth y DU? OAQ(5)0040(CG)

3. [Simon Thomas \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal mewn perthynas â dwyn holl ddarpariaethau Deddf Cymru 2017 i rym? OAQ(5)042(CG)**W**